# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

**2016 dccc 4**

**RHAN 4**

AMRYWIOL

*Cofnodion amgylchedd hanesyddol*

**37 Canllawiau**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff a restrir yn is-adran (2) ar—

(a) y modd y caiff y cyrff gyfrannu at lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a chynorthwyo i'w cadw'n gyfredol, a

(b) y defnydd o gofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer swyddogaethau'r cyrff.

(2) Y cyrff yw—

(a) awdurdodau lleol yng Nghymru;

(b) awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru;

(c) Cyfoeth Naturiol Cymru.

(3) Rhaid i'r cyrff a restrir yn is-adran (2) roi sylw i ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

(4) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori—

(a) â'r cyrff a restrir yn is-adran (2), a

(b) ag unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Adran 37 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 37 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(3)**

**I2** A. 37 mewn grym ar 31.5.2017 gan O.S. 2017/633, **ergl. 4(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Adran 37 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

– Act repealed by 2023 asc 3 Sch. 13 para. 193